Estyn

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Y Bannau

Dyddiad yr arolygiad: 01/06/2026

Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol y Bannau yn ysgol hapus, ofalgar a chynhwysol lle mae lles disgyblion a staff wrth wraidd ei gwaith. Mae’r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth glir a phwrpasol ac yn rhannu gweledigaeth yr ysgol yn llwyddiannus. Caiff ei chefnogi gan dîm ymroddgar o staff sy’n meithrin perthnasoedd cynnes a pharchus â disgyblion. O ganlyniad, mae’r ysgol yn gymuned ddiogel a chroesawgar lle mae disgyblion yn cael eu gwerthfawrogi ac yn gwybod ble i gael cymorth. Mae’r ysgol yn elwa ar gefnogaeth gref gan rieni, llywodraethwyr a’r gymuned.

Mae staff yn cydweithio’n effeithiol i ddarparu cwricwlwm diddorol sy’n ennyn brwdfrydedd y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae disgyblion yn cyfrannu’n werthfawr at gynllunio eu dysgu ac yn cynnig syniadau creadigol sy’n helpu i lunio profiadau perthnasol a difyr. Mae llawer o’r disgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a’r rhai o aelwydydd incwm isel, yn gwneud cynnydd addas o’u mannau cychwyn. Nid yw’r profiadau dysgu bob tro’n herio ychydig o ddisgyblion yn ddigon cyson.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau llafar cadarn yn Gymraeg a Saesneg ac yn magu hyder a datblygu geirfa gynyddol gyfoethog dros amser. Mae medrau darllen y rhan fwyaf yn gryf, ac erbyn iddynt gyrraedd brig yr ysgol, maent yn darllen yn rhugl yn y ddwy iaith. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu addas ac yn ysgrifennu’n hyderus ar draws ystod o ffurfiau. Fodd bynnag, nid yw’r cyfleoedd i gymhwyso’r medrau hyn ar draws y meysydd dysgu bob amser wedi eu trefnu’n ddigon cydlynus. Mae llawer yn datblygu medrau mathemateg priodol, ond anghyson yw’r cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd yn bwrpasol ar draws y cwricwlwm.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod trefniadau addas ar gyfer monitro ansawdd gwaith yr ysgol. Er hyn, nid yw’r prosesau bob amser yn ddigon miniog i werthuso effaith y ddarpariaeth ar gynnydd disgyblion yn effeithiol.

Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda ac maent yn dangos caredigrwydd a chwrteisi at eraill. Maent yn cyfrannu’n werthfawr at fywyd yr ysgol a’r gymuned leol. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer lles, datblygiad personol ac anghenion dysgu ychwanegol yn gryf ac yn cefnogi disgyblion yn effeithiol.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Sicrhau bod gweithgareddau monitro'n canolbwyntio'n agosach ar effaith y ddarpariaeth ar ddeilliannau disgyblion

A2 Datblygu'r cwricwlwm i sicrhau ei fod yn cefnogi disgyblion i gymhwyso eu medrau ysgrifennu a rhifedd yn adeiladol ar draws y meysydd dysgu

A3 Sicrhau bod profiadau dysgu'n herio disgyblion yn briodol

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 03/08/2026